

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION AR GYFER CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 08/10/2019 /
MINUTES FOR MEETING HELD ON 08/10/2019**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs Edna Jones, Is-gadeirydd Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams a Mr R G Parry.	PRESENT: Chairman Mrs Edna Jones, Vice Chairman Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams and Mr R G Parry.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Oherwydd gwaeledd, derbyniwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb oddi wrth Mr G Williams. Croesawodd hefyd swyddogion Pwyllgor Cae Peldroed Gwalchmai a diolchodd iddynt am fod yn bresennol.	The Chairman welcomed all to the meeting. Due to illness, apologies for his absence was received from Mr G Williams. She also welcomed officials from the Gwalchmai Football Club Committee and thanked them for their presence.
2. Datganiadau Diddordeb.	2. Declarations of Interest.
Dim.	None.
3. Cadarnhau cofnodion 9/09/2019	3. Ratify minutes 9/09/2019
Cadarnhawyd a derbyniwyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019. Mrs S Jones yn cynnig a Mrs A E Williams yn eilio.	The minutes of the meeting held on 9 September 2019 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs S Jones. Seconded by Mrs A E Williams.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Clwb Peldroed Gwalchmai. Trafodwyd y brydles a rhoddwyd copi o ohebiaeth rhwng Clerc y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir ynglŷn ag ymestyn y brydles. Y Clwb Peldroed wedi derbyn yr un llythyr a Chlwb Peldroed Llanrug ac yn hapus i dderbyn y gofynion ychwanegol a osodwyd gan Gymdeithas Peldroed Cymru.	(a) Gwalchmai Football Club. The lease was discussed and a copy of correspondence between the Clerk of the Community Council and the County The Football Club had received the same letter as Llanrug Football Club and were happy to accept the extra requirements imposed by the Football Association of Wales.
(b) Clerc i'r Cyngor Cymuned. Un cais i law. Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gwahodd yr ymgeisydd i gyfarfod nesaf y Cyngor.	(b) Clerk for the Community Council. One application received. The applications was discussed and it was decided to invite the applicant to attend the next Council meeting.
(c) Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru 26/9/2019. Cafwyd adroddiad ar gynnwys y Pwyllgor gan Mrs Catherine Parry. Gan fod y Clerc yn ymddeol bydd angen rhywun i fynychu'r cyfarfod yn eil. Cynigiodd Cynghorydd Bob Parry lenwi'r bwlch. Pawb yn cytuno ar hyn.	(c) One Voice Wales Area Committee 26/9/2019. Report on the content of the meeting was given by Mrs Catherine Parry. As the Clerk is retiring, there will be a need for someone to attend the meetings in her place. Councillor Bob Parry volunteered to attend. All agreed.
(d) Japanese Knotweed. Pryder yn parhau am y Japanese Knotweed ar lwybr cyhoeddus Ty'n Corniog.. Penderfynwyd i'r Cynghorydd Bob Parry	(d) Japanese Knotweed. Concerns still continue regarding the Japanese Knotweed on the Ty'n Corniog public footpath. It was decided that Councillor

ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir unwaith eto.	Bob Parry bring this matter to the attention of the County Council once again.
(e) Tyllau ar y ford rhwng Groeslon a'r Waen. Y tyllau wedi'u trwsio.	(e) Holes in the road between Groeslon and Waen. Holes had been repaired.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(i) Un Llais Cymru:	(i) One Voice Wales:
(a) Neges oddi wrth y Prif Weithredwr. Ymddiheuriad am ddiffyg ymateb i rai Cynghorau. Hyn oherwydd marwolaeth ei dad. Roedd y Clerc eisoes wedi anfon gair o gydymdeimlad ato ar ran y Cyngor Cymuned.	(a) Message from Chief Executive. Apologising for lack of response to some Councils. This was due to the death of his father. The Clerk had already sent him a letter of condolence on behalf of the Council.
(b) Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 – Dyletswydd Cynghorau Cymuned a Thref o dan Adran 6. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(b) Environment Wales Act 2016 – Community and Town Councils Duty under Section 6. Discussed and accepted for information.
(c) Sesiwn Hyfforddiant y Gogledd Medi/Hydfref. Derbyn er gwybodaeth.	(c) North Wales Training Sessions September/October. For information.
(d) Bwletin Newyddion - (Cworwm). Y Clerc yn dod i sylw'r Cyngor mai treian o Gyngor llawn (sef 10 yng Ngwalchmai) sydd ei angen ar gyfer cworwm.	(d) News Bulletin. (Quorum). The Clerk brought to the attention of the Council that a quorum constitutes a third of the full Council (i.e. 10 for Gwalchmai).
(e) Newyddion Carnegie UK Trust. Prif Weithredwr Un Llais eisiau tynnu sylw brys at hyn a byddai'n cynghori'r Cyngor i gymryd rhan.	(e) Carnegie Trues UK News. One Voice Wales' Chief Executive wanted to bring this to urgent attention and is encouraging councils to get involved.
(ii) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Wedi agor tudalen Gweplyfr. Er gwybodaeth.	(ii) Older People's Commissioner for Wales. Have launched a Facebook page. For information.
(iii) Fields in Trust Cymru. Diogelu Mannau Hamdden. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(iii) Fields in Trust Wales. Protecting Community Spaces. Discussed and accepted for information.
(iv) Cyngor Sir Ynys Môn.	(iv) Isle of Anglesey County Council
(i) Morlais. Cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Arolygiaeth Gynllunio. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(i) Morlais: Opportunity to submit comments to the Planning Inspectorate. Discussed and accepted for information.
(ii) Blaen Raglen with y Pwyllgor Gwaith Hydref 2019 – Mai 2020. Derbyn er gwybodaeth.	(ii) Executive's forward work programme October 2019 – May 2020. For information.
(iii) Rhybudd Penderfyniad i ganiatáu Cynllunio ar gais llawn i ddymchwel dau adeilad ynghyd a chodi annedd a storfa ar wahân ar dir ger Ty'n Ffynnon.	(iii) Planning Decision to permit application for demolition of two buildings together with the erection of a dwelling on land adjacent to Ty'n

	Ffynnon.
(v) Cyngor ar Bopeth Ynys Môn. Gwahoddiad i Agoriad Swyddogol yr adeilad newydd yng Nghaergerbyr ar 31/10/19 am 3.30pm gyda'r Cyfarfod Blyneddol i ddilyn. Neb yn rhydd i dderbyn y gwahoddiad.	(v) Ynys Môn Citizens Advice. Invitation to the Official Opening of the new premises at Holyhead on 31/10/19 at 3.30pm followed by the AGM. No-one free to accept the invitation.
(vi) Menter Môn. Cynhadledd Comisiwn Tegwch ar gyfer Ynys Môn 21.10.2019 yn Neuadd y Dref Llangefni 9.30am - 2.30pm. Derbyn er gwybodaeth.	(vi) Menter Môn. Fairness Commission for Anglesey Conference 21.10.2019 at Llangefni Town Hall 9.30am – 2.30pm. For information.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
NPower . Datganiad defnydd Ynni cloc y pentref - £27.20 . Wedi'i dalu 4/10/2019 drwy ddebyd uniongyrchol.	Npower. Energy Statement for village clock - £27.20 . Paid by direct debit on 4/10/2019.
7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd.	7. Any other matter at the Chairman's discretion.
(i) Gwneud trefniadau ar gyfer Sul y Cofio. Sul y Cofio i'w gynnal ar 10/11/2019 am 10.15am yng Nghapel Moriah (A) gyda gwasanaeth byr o amgylch y cloc am 11am. Y Clerc i bwrcasu 7 torch pabi, ac i anfon gwahoddiad i Awyrlu Fali, yr Heddlu a phlant yr ysgol. Mrs Catherine Parry i drefnu i'r Canon Emyr Rowlands gynnal y gwasanaeth.	(i) Make arrangements for Remembrance Sunday. Service to be held on 10/11/2019 at Moriah Chapel at 10.15am followed by a short service by the clock at 11am. The Clerk to procure 7 poppy wreaths and to send invitations to RAF Valley. Mrs Catherine Parry to arrange for Canon Emyr Rowlands to conduct the service.
(ii) Cwyn oddi wrth etholwr am larwm yn mynd dros nos o'r Chwarel neu o'r Safle Ailgylchu. Penderfynwyd i'r Cynghorydd Bob Parry ddod a'r mater i sylw'r Chwarel a'r Cyngor Sir.	(ii) Complaint from an elector regarding alarm from either the quarry or the recycling centre on through the night. It was decided that Councillor Bob Parry bring the matter to the attention of both the quarry and the County Council.
8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 4 Tachwedd 2019 am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.	8. Fix a date for the next meeting. The next meeting will be held on Monday 4 November 2019 at 7pm at the Pensioners Hall.
Daeth y cyfarfod i ben am 9pm.	The meeting concluded at 9pm.